

BOB KIRK

Ganwyd Bob Kirk yn Hanover, yr Almaen yn 1925. Yn 1933 daeth y Naziaid i rym a newidiodd popeth i Bob a'i deulu. Ar ôl pogrom Kristallnacht yn 1938, pan oedd Bob yn 14 oed, teithiodd i'r DU ar ei ben ei hun yn y *Kindertransport*.



Roedd fy rhieni wedi bod
ar y trê'n cludo cyntaf
allan o Hanover, ar 15
Rhagfyr 1941, i wersyll
o carchar yn Riga, Laffia.
Ddaethon nhw byth yn
ôl.

Cefais fy ngeni
yn Hanover yn
1925, yr
ieuengaf o dri
blant. Roedd
teulu fy nhad
wedi bod yn
werthwyr
gwartheg yn
ne'r Almaen
ers
cenhedloedd.

Galla i olrhain y goeden deuluol yn ôl i tua 1700. Fy nhad a fy ewythrod oedd y genhedlaeth gyntaf i adael y busnes a'r pentref. Aeth fy nhad i'r ysgol yn Heidelberg ac yna aeth i astudio tecstilau yn Frankfurt. Priododd fy rhieni yn 1912 ac ymgartrefu yng nghartref fy mam, Hanover, lle y sefydlodd Dad fusnes tecstilau.

Roedd fy mhentyndod cynnar yn gysurus a dechreuais yr ysgol yn 1930, ond cyn gynted ag y daeth y Naziaid i rym yn 1933, newidiodd popeth. Roedd rheolau newydd yn cael eu gorfodi drwy'r amser oedd yn gwneud bywyd i Iddewon yn fwy ac yn fwy anodd. Doedd yr ysgol ddim rhy wael nes i mi ddechrau'r ysgol uwchradd yn 1936. Roedd 'na lawer o fwlio yno; roedd fy nghyd-ddisgyblion wedi cael dweud wrthynt beidio â chymysgu ag Iddewon - ac fel rheol roedd rhaid i ni eistedd yn y cefn a pheidio â chymryd rhan yn y wers.

Byddai ymfudo'n cael ei drafod yn aml, roedd pobl yn gadael drwy'r amser, ond roedd fy nhad yn erbyn y syniad am amser hir. Roedd wedi ymladd yn y Rhyfel Byd Cyntaf, gyda chryn anrhydedd, a chredodd, fel llawer arall, y byddai hyn yn cyfrif am rywbeth ac yn ein cadw'n ddiogel. Roedd fy chwaer, oedd 11 mlynedd yn hŷn na fi, yn anghytuno a gadawodd i fynd i Dde Affrica yn 1936. Yn y pen draw dechreuodd fy rhieni drïo chwilio am ffyrdd i adael. Un rhwystr mawr i ymfudo o'r Almaen ar y pryd oedd treth ymadael uchel iawn. Yr anhawster mwyaf oedd dod o hyd i wlad i fynd iddo. Roedd gan bron pob gwlad yn y byd broblemau economaidd a llafur a doedden nhw ddim yn caniatáu mewnfudo digyfngiad. Roedd angen gwarant gan breswlydd ar rai, fyddai'n tystio na fyddai'r mewnfudwr posibl yn dibynnu ar wasanaethau cyhoeddus y wladwriaeth. Roedd gan [wledydd] eraill gwota - cyfngiad a nifer y bobl fyddai'n cael eu caniatáu bob blwyddyn. Gwnaeth fy rhieni lawer o geisiadau ond cafodd pob un ei wrthod.

Ym mis Tachwedd 1938 trefnodd y Naziïd bogrom mawr, lle y dinistriwyd cannoedd o synagogau yn yr Almaen ac Awstria ac ymosodwyd ar gartrefi a busnesau. Galwyd y pogrom hwnnw yn *Kristallnacht*— noson y gwydr mâl. Arestwyd 30,000 o Iddewon a'u hanfon i wersylloedd carchar. Wedi hynny, roedd rhaid i unrhyw blant Iddewig adael ysgolion y wladwriaeth. Wrth gwrs, daeth yr ysgolion Iddewig yn orlawn. Nawr roedd yn amlwg bod y gymuned Iddewig mewn perygl mawr. Cytunodd senedd Prydain y gallai 10,000 o blant ar eu pen eu hunain ddod i'r wlad. Sefydlwyd sefydliad o'r enw *Kindertransport* (Cludiant y Plant) i ddelio â hyn. Casglwyd enwau'r plant oedd am ddod, trefnwyd cludiant, daethpwyd o hyd i bobl i fynd gyda'r plant a llefydd iddynt fynd.

Ar 3ydd Mai 1939, yn 14 oed, gadewais Hanover a theithio i Brydain trwy'r Iseldiroedd. Roedd y stop cyntaf yn yr Iseldiroedd yn wych. Daeth llawer o bobl i gwrdd â ni gyda diodydd a bwyd - a gwên. Ni chawsom wên gan oedolion y tu allan i'r teulu ers amser hir. Aeth fy nghludiant i Liverpool Street. Aethpwyd â ni i neuadd danddaearol fawr lle roeddem yn eistedd ar ein cesys bach, gyda labeli enw o amgylch ein gyddfau ac aros i gael ein galw. Cefais fy nghasglu gan ŵr bonheddig o'r enw Smith - dyna'r cwbl cefais wybod amdano byth - a fy nghymryd i dŷ hardd yn Hampstead lle y cefais fy rhoi i'r wraig cadw tŷ. Roedd Mr Smith yn ddyn hael iawn. Roedd rhaid i bob plentyn gael gwarant o £50; roedd wedi noddi chwech ohonom am £300 - eitha' lot yn 1939. Arhosodd pob un ohonom gydag ef am tuag wythnos, hyd nes i'r nesaf gyrraedd, ac yna symud ymlaen. Roedd hynny'n deg, ond ches i ddim gwybod y byddai hynny'n digwydd. Ar y pryd doeddwn i ddim yn siarad Saesneg, felly efallai nad oeddwn wedi deall yr hyn a ddywedwyd. Nesaf, arhosais gyda theulu yn Greenford, y teulu Morris, oedd â dau o blant bach eu hunain. Anfonwyd fi i'r ysgol lle y dechreuais i ddysgu ychydig o Saesneg. Trwy lwc, roedd y wers gyntaf yn farddoniaeth a chipiwyd fy nychymyg.

Roedd y teulu wedi noddi bachgen arall, a phan gyrhaeddodd Henry roedd yn achos o 'byddem wrth ein boddau'n dy gadw, ond ...' Ymfudodd y teulu Morris i Ganada yn y pen draw, ond rydym wedi cadw mewn cysylltiad. Ar ôl hyn es i hostel yn Westgate yng Nghaint. Doedd gen i ddim syniad faint ohonom oedd yno, roedd yn teimlo fel cannoedd. Doedd dim byd i ni wneud. Doedd neb wedi ystyried rhoi rhywbeth i'n cadw'n brysur. Yn y pen draw, ar ddiwedd mis Awst, symudais i hostel arall yn Llundain, mewn pryd i ddechrau ysgol a chael fy symud ar ddechrau'r rhyfel. Cawsom ein hanfon i Whipsnade - ac ailadroddwyd ein hymweliad â Liverpool

Street. Eisteddodd y plant ar eu cesys ar un ochr o neuadd y pentref gyda'r bobl leol ar yr ochr arall, ac aros i gael ein dewis. Yn y diwedd roedd tri ohonom ar ôl, pob un ohonom yn ffoaduriaid, a daeth dwy wraig annwyl iawn, chwiorydd, oedd yn rhedeg fferm ieir, a'n cymryd. Daeth y faciwîs yn ysgol y pentref, gan amsugno'r holl blant lleol fu'n mynd ar fws i bentrefi eraill ar gyfer eu haddysg cyn hynny. Roedd tri athro wedi dod gyda ni, ond yn fuan wedyn galwyd dau i ffwrdd gan adael un wraig i ofalu am yr ystod gyfan o'r babanod i blant oedd bron iawn yn barod i adael yr ysgol. Galwyd ar ddau ohonom, yn fy nghynnwys i ac un bachgen hŷn arall i wneud rhywfaint o'r dysgu. Arhosais yn yr ysgol tan 1941 pan oeddwn yn 16 oed, ac yna es i wneud gwaith rhyfel mewn ffatri oedd yn gwneud teclynnau ar gyfer y Morlu a'r RAF. Ymunais â'r Cartreflu hefyd. Yn 1944 ymunais â'r Fyddin ac yn y pen draw des yn gyfieithydd yn delio gyda charcharorion rhyfel o'r Almaen.

Hyd nes i'r rhyfel ddechrau, roedd fy rhieni a fi wedi bod mewn cysylltiad â'n gilydd yn gyson. Newidiodd hynny'n fuan a chawsom ein cyfyngu i negeseuon 25 gair unwaith y mis trwy'r Groes Goch. Daeth y negeseuon hynny i ben ar ddiwedd 1941 ac ar ôl y rhyfel deallais fod fy rhieni wedi bod ar y trê'n cludo cyntaf allan o Hanover, ar 15 Rhagfyr 1941, i wersyll carchar yn Riga, Latfia. Ddaethon nhw byth yn ôl.

Heddiw

Cyfarfu Bob a'i wraig Ann, plentyn arall o'r *Kindertransport*, mewn clwb ar gyfer ffoaduriaid Iddewig ifanc yng ngofal Woburn House. Priodon nhw ar 21 Mai 1950.

Heddiw mae Bob ac Ann yn gweithio'n ddifflino i godi ymwybyddiaeth am yr Holocost a'r profiad o'r *Kindertransport* trwy siarad mewn gweithgareddau ar gyfer Diwrnod Cofio'r Holocost a thrwy gydol y flwyddyn. Mae ganddynt ddau fab a thri o wyrion hyfryd.